

Dyddiad cyhoeddi: 24 Awst 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

"Hoffwn wneud cais Rhyddid Gwybodaeth am yr wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda.

Llinell amser a chyflog gyrrwr trênn, o fod yn hyfforddai i fod yn yrrwr trênn cymwysedig.

Gwybodaeth megis y canlynol:

- *Cyflog cychwynnol gyrrwr trênn dan hyfforddiant.*
- *Hyd yr hyfforddiant.*
- *Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, a fyddai'r hyfforddai wedyn yn yrrwr trênn cymwysedig? Os felly, beth fyddai ei gyflog? Os na, beth sy'n digwydd?*
- *Ar ôl cymhwyso, beth yw graddfa gyflog gyrrwr trênn.*

Os ydw i wedi methu unrhyw gamau, a fyddai modd i mi gael manylion y cyflog a'r amseroedd."

Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:

Cyflog cychwynnol gyrrwr trênn dan hyfforddiant yw £28,773.

Mae'r hyfforddiant cychwynnol i yrwyr yn para am o leiaf 35 wythnos, er y gallai hyn gymryd mwy o amser, yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, fel cynnydd yr hyfforddai o ran dysgu.

Ar ôl cymhwyso, mae'r gyrrwr yn parhau i gael ei asesu am ddwy flynedd arall. Cyflog gyrrwr ar ôl cymhwyso yw £47,434.

Ar ôl cymhwyso'n llawn, mae cymhwysedd gyrrwr trênn yn cael ei adolygu dros gyfnodau o 3 blynedd. Cyflog gyrrwr trênn sydd wedi cymhwyso'n llawn yw £52,706.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fvdd "Gwvbodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".